**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

25 Gorffennaf 2016

Annwyl Gyd-aelodau,

**LLYTHYR AT BOB AELOD O'R CYNULLIAD – CYNLLUN HYDER BUSNES**

Yn hwyrach heddiw bydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn cyfarfod i drafod y goblygiadau i Gymru ar hyn o bryd ac yn yr hirdymor, yn dilyn canlyniadau refferendwm yr UE.

Mae ansicrwydd ac ansefydlogrwydd yn amharu ar hyder busnesau, a allai gael effaith mwy hirdymor ar swyddi a buddsoddi. Dyna pam y mae manylion Cynllun Hyder Busnes yn cael ei ddisgrifio gan Gyngor Adnewyddu'r Economi yn ystod y prynhawn heddiw.

Bwriad y Cynllun yw cynnig nifer o gamau penodol fydd, os y cânt eu gwneud gyda'i gilydd, yn sail pellach i'n rhagoriaethau busnes a'n hymrwymiad i ddarparu mwy o swyddi, a swyddi gwell i Gymru, drwy economi gryfach, decach. Mae Cymru ar agor i fusnes ac rydym am bara felly.

1. Heddiw, rydym yn cyhoeddi Cronfa Twf a Ffyniant ar gyfer busnesau fydd yn cefnogi prosiectau busnes ble y mae swyddi, buddsoddiad a thwf yn ganolog iddynt.

2. Rydym yn trafod hefyd â Cyllid Cymru ynghylch sut i helpu'r sector preifat yn ansicrwydd y cyfnod hwn. Byddwn yn para i weithio gyda phob busnes sydd â phrosiect gyda ni i ystyried a oes modd prysuro'r gwariant a'r buddsoddiad.

3. Byddwn yn gweithio'n galetach i gynyddu nifer y cwmnïau o Gymru sy'n aIlforio, yn ogystal â chynyddu gwerth ein hallforion presennol. Rydym am gychwyn cynllun proactif i helpu allforwyr er mwyn i fusnesau allu manteisio ar gyfleoedd ledled y byd ar gyfer eu cynhyrchion a'u gwasanaethau.

4. Byddwn yn awyddus i ddefnyddio platfformau cyhoeddus i gyfleu ein bod o blaid busnes ac i ennyn hyder busnesau. Mae'r broses hon wedi dechrau ac mae nifer o ddigwyddiadau ar y gweill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

5. Rydym wrthi’n trefnu rhaglen o ddigwyddiadau er mwyn cael siarad yn uniongyrchol â busnesau, i glywed eu barn ac i ddangos iddyn nhw ein bod yn gadarn o’u plaid.

6. O ran datblygu sgiliau, rydym yn bwriadu lansio’r Rhaglen Prentisiaethau Pob Oed. Bydd yn cyfrannu at ddarparu’r sgiliau fydd eu hangen ar gwmnïau a chymunedau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn dal ati i gynnal amrywiaeth o raglenni sgiliau sydd wedi’u creu i ddiwallu anghenion cwmnïau sy’n buddsoddi neu sy’n ehangu eu gweithgareddau yng Nghymru. Fe welwch fanylion y cynlluniau hyn yn y Porth Sgiliau ar wefan Busnes Cymru.

7. Mae ein Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cynnig rhaglen 5-mlynedd uchelgeisiol o brosiectau i foderneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth, gan gysylltu cymunedau a busnesau â swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau. Bydd ein hymrwymiad i ddatblygu ‘r seilwaith yn parhau, gyda chynlluniau ar y gweill i gynnal amrywiaeth o brosiectau. O ran prosiectau ffyrdd yn unig, gallai hyn gynnwys Adrannau 2, 5 a 6 ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd ar yr A465, coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd, cyffordd 28, ffordd gyswllt ddwyreiniol y Bae, gwneud twneli Bryn-glas yn fwy diogel, ffordd osgoi’r Drenewydd, Pont Ddyfi ar yr A487, gwelliannau i’r A494/A55/A548 yng Nglannau Dyfrdwy, pontydd Menai a Five Mile Lane. Byddwn yn dal i bwyso ar Lywodraeth y DU i drydaneiddio Prif Lein y Gogledd. Ar hyd yr amser, rydym am roi signalau clir i’r farchnad ynghylch y prosiectau sydd gennym ar y gweill.

8. Byddwn yn gweithio er mwyn hyrwyddo ac ymwreiddio’n gryfach ddeg elfen datganiad Polisi Caffael Cymru. Er enghraifft, trwy gryfhau’n hymdrechion i leihau’r rhwystrau i gyflenwyr o Gymru a Busnesau Bach a Chanolig, cynyddu’r buddiannau i gymunedau a datblygu capasiti a galluoedd.

9. Byddwn yn hyrwyddo’r neges bod Cymru ar agor i fusnes trwy ddeunydd digidol a phrint, gydag ymgyrch ehangach yn dilyn yn yr Hydref i hyrwyddo Cymru fel y lle i ddechrau busnes, i ehangu’ch busnes ac i fuddsoddi ynddo. Yn y tymor byr, mae ein swyddfeydd tramor wrthi’n siarad â darparu fuddsoddwyr i ddweud ein bod ar agor i fusnes ac y bydd Cymru’n cael ei chynrychioli yn nhrafodaethau’r UKTI ar lefel y DU.

10. Bydd ymgyrch yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf i gefnogi busnesau twristiaeth yng Nghymru. Byddwn yn parhau i elwa ar lwyddiant Cymru yn Euro 2016 i hyrwyddo Cymru i dwristiaid. Hefyd, byddwn yn bwrw ymlaen hefyd â’n hymrwymiad i ddatblygu cynlluniau cystadleurwydd ar draws y Llywodraeth.

Mae llawer o’r hyn rwy’n ei gynnig fodd bynnag yn dibynnu i ryw raddau ar arian o Ewrop ac mae’n hanfodol inni ein bod yn cael gwybod gan Lywodraeth y DU a fydd am anrhydeddu ymrwymiadau a chynlluniau presennol yr UE trwy gyfnewid unrhyw arian Ewropeaidd a gollir gan arian o Lywodraeth y DU.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure